

Patrwm cyflwyno O fis Hydref i fis Mehefin

Disgrifiad o'r modiwl

Mae'r modiwl hwn yn adeiladu ar y cysyniadau Peirianeg a mathemateg sylfaenol yn Peirianeg: tarddiadau, dulliau, cyd-destun (T192) a Peirianeg: fframweithiau, dadansoddi, cynhyrchu (T193). I ddechrau, caiff 8 wythnos o astudio eu neilltuo i gryfhau ac atgyfnerthu pynciau a astudiwyd yn flaenorol er mwyn sicrhau sail gadarn ar gyfer y rhifedd a'r algebra sy'n hanfodol ar gyfer cysyniadau newydd. Nesaf, byddwch yn archwilio technegau trigonometreg, calcwlws, rhifau cymhleth a matrices yng nghyd-destun enghreifftiau peirianeg megis mudiant, trosglwyddo gwres ac ystadegau a thrydan sylfaenol. Daw'r modiwl i ben â sesiynau adolygu o dan arweiniad a datblygu technegau arholiad er mwyn paratoi ar gyfer yr arholiad terfynol.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â'r [fanyleb person gyffredinol](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a nodir yn y fanyleb person gyffredinol, dylech feddu ar y canlynol:

- diddordeb a brwdfrydedd o ran addysgu mathemateg lefel uwch mewn cyd-destun peirianeg ar lefel 1 mewn amgylchedd ar-lein yn bennaf
- gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o anghenion peiriannydd proffesiynol o ran mathemateg
- addysg hyd at lefel gradd mewn pwnc sy'n cynnwys mathemateg gymhwysol
- y gallu i gefnogi myfyrwyr i ddatblygu hyder a hyfedredd ym maes mathemateg
- parodrwydd i ddatblygu arbenigedd yn y defnydd effeithiol o adnoddau amgylchedd dysgu rhithwir sy'n hollbwysig i'r modiwl
- y gallu i hwyluso gweithgareddau grŵp tiwtor ar-lein
- parodrwydd a gallu i gynllunio a darparu gweithgareddau dysgu diddorol ym meysydd cysyniadau/cwricwlwm peirianeg a mathemateg wyneb yn wyneb ac ar-lein

Byddai'n fanteisiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- profiad diweddar o weithio mewn amgylchedd peirianeg
- profiad o addysgu peirianeg a mathemateg sy'n gysylltiedig â pheirianeg i fyfyrwyr peirianeg/gwyddoniaeth
- profiad o addysgu oedolion ym maes addysg bellach, addysg uwch a/neu ddysgu o bell
- cymhwyster addysgu, neu gydnabyddiaeth broffesiynol gan sefydliad addysgu megis yr Academi Addysg Uwch
- aelodaeth o sefydliad peirianeg

Manylion y modiwl – mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynir gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	2
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	3
Y nifer amcangyfrifedig o oriau fesul wythnos addysgu:	3.5